# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

## RHAN 1

FFRAMWAITH STRATEGOL AR GYFER ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL

*Strategaeth ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil*

### 13 Datganiad o flaenoriaethau strategol

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy’n nodi eu blaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi, ac mewn cysylltiad â hwy.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg, ddiwygio’r datganiad a gyhoeddir o dan is-adran (1) (gan gynnwys drwy ei ddisodli’n gyfan gwbl).

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ddiwygiadau y maent yn eu gwneud i’r datganiad.

### 14 Cynllun strategol ar gyfer y Comisiwn

(1) Rhaid i’r Comisiwn lunio cynllun strategol sy’n nodi sut y mae’n bwriadu—

(a) cyflawni ei ddyletswyddau strategol o dan adrannau 2 i 12, a

(b) ymdrin â’r blaenoriaethau yn natganiad Gweinidogion Cymru o dan adran 13.

(2) Wrth lunio’r cynllun, rhaid i’r Comisiwnymgynghori â’r personau hynny y mae’n ystyried eu bod yn briodol.

### 15 Cymeradwyo, cyhoeddi a gweithredu’r cynllun strategol

(1) Rhaid i’r Comisiwn anfon cynllun strategol a lunnir o dan adran 14 at Weinidogion Cymru i’w gymeradwyo cyn diwedd cyfnod o 6 mis sy’n dechrau â’r diwrnod y cyhoeddir y datganiad o dan adran 13(1).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(2) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cymeradwyo'r cynllun, neu

(b) cymeradwyo'r cynllun gydag addasiadau.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru geisio cytundeb y Comisiwn i bob addasiad y maent yn bwriadu ei wneud i gynllun cyn iddynt ei addasu o dan is-adran (2)(b).

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo cynllun sy'n cynnwys addasiad nad yw'r Comisiwn yn cytuno iddo—

(a) rhaid i Weinidogion Cymru roi rhesymau dros yr addasiad hwnnw i'r Comisiwn, a

(b) rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi'r rhesymau a roddir gan Weinidogion Cymru pan fydd yn cyhoeddi ei gynllun strategol cymeradwy.

(5) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi ei gynllun strategol cymeradwy.

(6) Caiff y Comisiwn gyhoeddi ei ddatganiad ynghylch amcanion llesiant o dan adran 7 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) drwy ei gynnwys yn ei gynllun strategol cymeradwy.

(7) Rhaid i'r Comisiwn gymryd pob cam rhesymol i weithredu ei gynllun strategol cymeradwy.

**16 Adolygu'r cynllun strategol**

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn diwygio eu datganiad o dan adran 13(2) ar ôl i'r Comisiwn gyhoeddi ei gynllun strategol cymeradwy o dan adran 15(5), rhaid i'r Comisiwn adolygu ei gynllun strategol.

(2) Caiff y Comisiwn adolygu ei gynllun strategol ar unrhyw adeg arall.

(3) Caiff y Comisiwn ddiwygio ei gynllun strategol ar ôl adolygiad o dan is-adran (1) neu (2) os yw'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

(4) Os yw'r Comisiwn yn diwygio ei gynllun strategol, mae adran 14 yn gymwys mewn perthynas â diwygio'r cynllun fel y mae'n gymwys mewn perthynas â llunio cynllun.

(5) Rhaid i'r Comisiwn anfon ei gynllun strategol diwygiedig at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo—

(a) pan fo'r diwygio o ganlyniad i adolygiad o dan is-adran (1), cyn diwedd cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r diwygiadau i'w datganiad, neu

(b) pan fo'r diwygio o ganlyniad i adolygiad o dan is-adran (2), cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(6) Mae is-adrannau (2) i (7) o adran 15 yn gymwys i gynllun a ddiwygir o dan yr adran hon fel y maent yn gymwys i gynllun a lunnir o dan adran 14.